## RHESTR WIRIO BIOAMRYWIAETH AR GYFER AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL

Mae gennych rôl allweddol wrth gyfrannu i amcanion Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru:

- Mae colli bioamrywiaeth wedi'i atal a gallwn weld adferiad pendant yn nifer, ystod ac amrywiaeth genetig rhywogaethau, gan gynnwys y rhywogaethau hynny sydd angen amodau penodol iawn i oroesi.
- Mae'r amgylchedd ehangach yn fwy ffafriol i fioamrywiaeth trwy reolaeth briodol, llai o ddarnio cynefinoedd a chynnydd yn y cynefinoedd a'r cyswllt rhyngddynt.
- Mae safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, ar raddfa Cymru ac yn lleol, mewn cyflwr ffafriol i gefnogi rhywogaethau a chynefinoedd y cawsant eu dynodi ar eu cyfer.

### Egwyddorion Cyffredinol

- Cydymffurfiwch â deddfwriaeth Ewropeaidd a deddfwriaeth arall yn ymwneud â rhywogaethau a warchodir, yn enwedig gan nad ydynt bob amser yn byw mewn tir neu ar dir o ddiddordeb dynodedig o ran bioamrywiaeth.
- Gweithiwch yn agos â'ch ecolegydd eich hun a CCGC drwy gydol y broses gynllunio er mwyn uchafu manteision bioamrywiaeth.
- Siaradwch â'ch ecolegydd eich hun a chyda CCGC gan fabwysiadu dull hierarchaidd o fynd i'r afael â bioamrywiaeth fel sy'n cael ei hyrwyddo yn y drafft diwygiedig Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio – gwella, osgoi niwed, lliniaru niwed, a gwneud iawn am niwed trwy iawndal.
- Neilltuwch leiniau o dir i'w rheoli ar gyfer gwarchod natur.

### Arferion Da

- Derbyniwch gyngor er mwyn osgoi dinistrio'n anfwriadol gynefinoedd neu rywogaethau SoDdGA, safleoedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth neu rai pwysig eraill o ganlyniad i weithgareddau'r awdurdod lleol o ddydd i ddydd.
- Peidiwch â derbyn ceisiadau cynllunio neu geisiadau eraill am ganiatâd hyd nes y bydd arolygon rhywogaethau wedi'u cwblhau a hyd nes y darperir manylion llawn gyda'r cais.
- Dylid bob amser gynnwys mesurau lliniaru a mesurau iawndal ar gyfer rhywogaethau penodol fel amodau yn eich caniatâd cynllunio a chydsyniadau eraill.
- Dechreuwch eich adolygiad o weithgaredd cydsynio mewn pryd er mwyn sicrhau na weithredir ar unrhyw gydsynio amhriodol.
- Ymgynghorwch â CCGC fel y bo'n briodol
- Cynhwyswch yr amser sydd ei angen ar gyfer prosesu trwyddedau (a'r posibilrwydd o ganlyniad negyddol) yn eich cynllun.
- Mesurwch eich cynnydd wrth ochr ***Cynyddu'r Momentwm Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (ALGE***) yn flynyddol.

WLGA • CLILC

CYDWEITHIO YN ERBYN troseddau bywyd gwyllt
PARTNERSHIP FOR ACTION AGAINST wildlife crime

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# BIODIVERSITY CHECKLIST FOR LOCAL PLANNING AUTHORITIES

You have a key role in contributing to the objectives of the Assembly Government's Environment Strategy for Wales:

- The loss of biodiversity has been halted and we can see a definite recovery in the number, range and genetic diversity of species, including those species that need very specific conditions to survive.
- The wider environment is more favourable to biodiversity through appropriate management, reduced habitats fragmentation and increased extent and interconnectivity of habitats.
- Sites of international, Welsh and local importance are in favourable condition to support the species and habitats for which they have been identified.

## Basic Principles

- Comply with European and other legislation regarding protected species, particularly that they do not always occur in or on land that is designated for its biodiversity interest.
- Work closely with your own ecologist and CCW throughout the planning process to maximise the benefit of biodiversity.
- Talk to your own ecologist and to CCW in order to adopt a hierarchical approach to dealing with biodiversity as promoted in the revised draft Technical Advice Note 5 Nature Conservation and Planning - enhance, avoid harm, minimise harm through mitigation, and offset harm by compensation.
- Set aside parcels of land to be managed for nature conservation.

## Good Practice

- Take advice in order to avoid inadvertently destroying SSSI, BAP or other important habitats or species as a result of everyday local authority activities.
- Do not accept planning or other consent applications until species surveys have been completed and full details are provided within the application.
- Always include specific species mitigation and compensation measures as conditions in your planning permission and other consents.
- Begin your review of consents activity in time to ensure that no inappropriate consent is actioned.
- Consult with CCW as appropriate
- Build the time needed for licence processing (and the possibility of a negative result) into your plan.
- Measure your progress against ***ALGE Increasing the Momentum*** annually.